OFFERYNNAU STATUDOL
CYMRU

# 2012 Rhif 1268 (Cy. 159)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

## Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Black Bridge, Caergybi, Ynys Môn i Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd) (Cyfyngiad o 40 mya a Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012

| | |
|---|---|
| *Gwnaed* | *11 Mai 2012* |
| *Yn dod i rym* | *21 Mai 2012* |

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer y darnau perthnasol o Gefnffordd Caer — Bangor (yr A55) (y cyfeirir ati yma wedi hyn fel "y gefnffordd") wedi eu bodloni y dylid cyfyngu ar draffig, neu ei wahardd ar ddarnau penodedig o'r gefnffordd oherwydd gwaith y bwriedir ei wneud arnynt.

Mae Gweinidogion Cymru, felly, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddynt gan adran 14(1) a (4) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**) a phob pŵer galluogi arall(**2**), yn gwneud y Gorchymyn hwn.

**1.** Daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 21 Mai 2012 a'i enw yw Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Black Bridge, Caergybi, Ynys Môn i Gyffordd 11 (Cyfnewidfa Llys y Gwynt), Bangor, Gwynedd) (Cyfyngiad o 40 mya a Gwahardd Cerbydau Dros Dro) 2012.

**2.** —(1) Yn y Gorchymyn hwn:

ystyr "cerbyd esempt" *("exempted vehicle")* yw unrhyw gerbyd a ddefnyddir ar gyfer y gwaith sy'n arwain at y Gorchymyn hwn, neu mewn cysylltiad â'r gwaith hwnnw, neu unrhyw gerbyd a ddefnyddir gan y gwasanaethau brys;

ystyr "cyfnod y gwaith" *("works period")* yw'r cyfnod hwnnw sy'n cychwyn am 05:00 o'r gloch ar 21 Mai 2012 ac sy'n dod i ben pan gaiff yr arwyddion traffig dros dro eu tynnu oddi yno'n barhaol;

ystyr “y darnau o’r gefnffordd *(“the lengths of the trunk road”)* yw'r darnau hynny o'r gefnffordd a bennir yn yr Atodlenni i'r Gorchymyn hwn.

(2) Mae unrhyw gyfeiriad yn y Gorchymyn hwn at erthygl neu Atodlen â rhif yn gyfeiriad at yr erthygl neu’r Atodlen sy’n dwyn y rhif hwnnw yn y Gorchymyn hwn.

**3.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd fynd yn gyflymach na 40 mya ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 1.

**4.** Yn ddarostyngedig i ddarpariaethau erthygl 8, ni chaiff neb, yn ystod cyfnod y gwaith, yrru unrhyw gerbyd, na pheri na chaniatáu i unrhyw gerbyd, ac eithrio cerbyd esempt, fynd ar y darn o'r gefnffordd a bennir yn Atodlen 2.

**5.** Mae darpariaethau Gorchymyn y Gefnffordd (yr A5) (Llanfair Pwllgwyngyll, Gwynedd) (Terfyn Cyflymder 50 mya) 1983**(3)** drwy hyn wedi eu hatal mewn perthynas â'r darn perthnasol o'r gefnffordd yn ystod yr adegau y bydd y cyfyngiadau a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**6.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffyrdd yr A5 a’r A55 (Llanfair Pwllgwyngyll i Gaergybi, Ynys Môn) (Dileu Cyfyngiadau) 2001**(4)** drwy hyn wedi eu hatal mewn perthynas â'r darn perthnasol o'r gefnffordd yn ystod yr adegau y bydd y cyfyngiadau a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**7.** Mae darpariaethau Gorchymyn Cefnffordd yr A55 (Caergybi, Ynys Môn) (Terfyn Cyflymder 50 mya a Gwahardd Cerddwyr) 2001**(5)** drwy hyn wedi eu hatal mewn perthynas â'r darn perthnasol o'r gefnffordd yn ystod yr adegau y bydd y cyfyngiadau a bennir yn erthygl 3 yn weithredol.

**8.** Ni fydd darpariaethau erthyglau 3, 4, 5, 6 a 7 yn gymwys ond ar yr adegau ac i’r graddau y bydd arwyddion traffig yn dangos bod y gwaharddiad a'r cyfyngiad y maent yn cyfeirio atynt yn weithredol.

**9.** Bydd y Gorchymyn hwn yn para am chwe mis ar y mwyaf.

Llofnodwyd o dan awdurdod y Gweinidog Llywodraeth Leol a Chymunedau, un o Weinidogion Cymru

Dyddiedig y 11 Mai 2012

*G R Morgan*
**GARETH MORGAN**
Pennaeth Gwasanaethau Seilwaith Arbenigol
Llywodraeth Cymru

**(1)** 1984 p.27; amnewidiwyd adran 14 gan Ddeddf Traffig Ffyrdd (Cyfyngiadau Dros Dro) 1991 (p.26), adran 1(1) ac Atodlen 1.

**(2)** Yn rhinwedd O.S. 1999/672, erthygl 2 ac Atodlen 1, a pharagraff 30(1) o Atodlen 11 i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p.32), mae'r pwerau hyn wedi eu rhoi bellach i Weinidogion Cymru o ran Cymru.

**(3)** O.S. 1983/1772

**(4)** O.S. 2001/1653 (Cy.113)

**(5)** O.S. 2001/1633 (Cy.111)

## YR ATODLENNI

### ATODLEN 1
### Terfyn Cyflymder Dros Dro o 40 mya

Y darn hwnnw o'r gefnffordd sy'n ymestyn o Black Bridge, Caergybi, Ynys Môn i'w chyffordd â'r A5 wrth Gyffordd 11, Cyfnewidfa Llys y Gwynt, Bangor, Gwynedd.

### ATODLEN 2
### Gwahardd Cerbydau Dros Dro

Y darn cyfan o'r ffordd ymuno tua'r dwyrain wrth Gyffordd 8A (Cyfnewidfa Carreg Brân), Ynys Môn.